**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Ebrill 2022**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Richard Mainon |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Mark Young – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 11 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Bobby Feeley – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 11 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | AILFODELU'R GWASANAETHAU GWASTRAFF – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y SEFYLLFA ARIANNOL GAN GYNNWYS ACHOS BUSNES WEDI'I DDIWEDDARU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn-*<br><br>*(a) cydnabod y sefyllfa ddiweddaraf o ran cost a chyllideb (Atodiad 1 i'r adroddiad);*<br><br>*(b) cymeradwyo'r Achos Busnes ddiweddaraf (Atodiad 2 i'r adroddiad);*<br><br>*(c) dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro i alw ar gyllid cynllun cyfalaf heb ei neilltuo os bydd angen oherwydd cynnydd afreolus mewn costau o ganlyniad i chwyddiant neu faterion cadwyn gyflenwi. Adroddir ar unrhyw alwad ar y cyllid hwn i'r cyfarfod nesaf o'r Cabinet, a*<br><br>*(d) cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Ebrill 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **6** | CERBYDAU FFLYD GWASTRAFF NEWYDD 5M – DYFARNU'R CONTRACT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn-*<br><br>*(a) cymeradwyo dyfarnu'r contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer yr 11 RRV 5M disel a 3 RRV 5M allyriadau isel iawn am gost o £2,712,231. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ariannu £2,217,231 a bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £495,000 i brynu'r 3 cerbyd allyriadau isel iawn. Gweler Atodiad 1 (Rhan 2) am fwy o fanylion ariannu;*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'u hystyriaethau, a*<br><br>*(c) cymeradwyo gweithredu'r penderfyniad ar unwaith oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i gyflenwi'r cerbydau RRV 5M mwyaf, ac (yr un mor bwysig) i sicrhau'r prisiau tendro o gofio'r ansicrwydd yn y farchnad a chwyddiant yn y prisiau sy'n gallu golygu bod y prisiau tendro yn cael eu tynnu'n ôl ar fyr rybudd.* |
| **7** | CAM 2 GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF, DYFARNU CONTRACT COLOMENDY DRWY BENDERFYNIAD WEDI'I DDIRPRWYO | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn-*<br><br>*(a) cymeradwyo dyfarnu'r contract i'r contractwr a ffefrir drwy Benderfyniad Dirprwyedig gan y Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro) ar ddiwedd y broses dendro, gan gymryd fod cais y Contractwr o fewn terfyn fforddiadwyedd y gwaith. Disgwylir i'r Penderfyniad Dirprwyedig gael ei wneud ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny;*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les* |

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| | | *(Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a*<br><br>*(c) rhoi'r penderfyniad dirprwyedig ar waith ar unwaith oherwydd y pwysau o ran amser i fynd â'r prosiect yn ei flaen, a dyfarnu contract i ganiatáu i waith ddechrau ar Gam 2 ar y safle cyn gynted â phosibl i wneud y mwyaf o'r amodau adeiladu ffafriol dros yr haf a lliniaru'r risgiau a achosir gan ansefydlogrwydd parhaus y farchnad a phwysau o ran costau.* |
| **8** | PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN – CYNNIG I YMGYNGHORI'N FFURFIOL YNGHYLCH TREFNIADAETH YR YSGOL A'R ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL DRAFFT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn-*<br><br>*(a) cymeradwyo mynd ati i ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig i gynyddu ei chapasiti o 116 i 220;*<br><br>*(b) cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i'w ystyried, a*<br><br>*(c) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **9** | TREFNIADAU CYDWEITHIO CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRU (AWDURDOD LLEOL) | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn-*<br><br>(a) mabwysiadu'r cynigion ar gyfer datblygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan ei fod yn cymryd cyfrifoldeb dros Faethu Cymru; |

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | *(b) cadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer y Cytundeb Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru ac yn cytuno bod yr awdurdod yn llofnodi'r cytundeb;*<br><br>*(c) enwebu, yn ffurfiol, eu cynrychiolydd ar y Cyd-bwyllgor, a*<br><br>*(d) datblygu'r dull cenedlaethol, dirprwyo llywodraethu cysylltiedig, a threfniadau craffu lleol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor Llawn.* |
| **10** | FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW RHAGWEITHIOL (MÂN WAITH) – YSGOLION AC EIDDO NAD YDYNT YN YSGOLION | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn-*<br><br>*(a) cymeradwyo penodi'r contractwyr a argymhellir i gyfrannau'r Fframwaith fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a* |
| **11** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.* |
| **12** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*. |